| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Creu cân am ardal yn seiliedig ar 'Ochor Treforys o'r dre' |
| Disgrifiad: | Darllen/gwrando ar gân, ei thrafod ac yna creu cytgan a/neu benillion cân debyg |
| Grwpiau blwyddyn | CA3 – Blwyddyn 7 neu uwch, yn dibynnu ar y grŵp |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Llafaredd<br>• ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio<br><br>Darllen<br>• canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • 'Ochor Treforys o'r dre', geiriau ar y dud. 2 y ddogfen hon, drwy ganiatâd caredig Neil Rosser.<br>• Mae'r gân i'w chlywed yma – https://www.youtube.com/watch?v=pQMavqHjFjk - (ac yr albwm 'Gwynfyd' (1995) a 'Casgliad o Ganeuon 1987-2004'), eto drwy ganiatâd caredig yr awdur.<br>• Mae'r map: https://www.google.co.uk/maps/@51.6724085,-3.8734539,12z?hl=en yn dangos Treforys (Morriston), Clydach, Glais a Bonymaen y sonnir amdanynt yn y gân. |
| Trefn addysgu: | • Esbonio daearyddiaeth y gân drwy gyfrwng y map uchod – am ogledd/dwyrain Abertawe y mae Neil Rosser yn sôn yma. Esbonio pwy oedd Gwenallt.<br>• Darllen y gân neu wrando arni. Gall fod angen esbonio rhai o'r geiriau tafodieithol (gweler isod).<br>• Gofyn i barau greu disgrifiad o 'Ochor Treforys o'r dre'. Dyma rai cwestiynau:<br>Sut roedd dwyrain Abertawe yn y gorffennol?<br>Pa fath o dai sydd yma?<br>Sut mae'r lle nawr?<br>Sut mae Neil Rosser yn disgrifio'r bobl sy'n byw yma?<br>• Edrych ar batrwm y gân – y penillion a'r gytgan, hyd yn llinellau, yr odlau ac ati.<br>• Ceir blas ar dafodiaith yr ardal yma, gydag enghreifftiau o **galedu cytseiniaid** 'pwtru' (pydru), 'gatel' (gadael); **hepgor 'ch' ar ddechrau** gair: 'whare'; **hepgor 'f' ar ddiwedd gair**: 'co''; **llafariad ymwthiol**: 'ochor'; **ynganu tafodieithol**: 'wmladd' (ymladd), 'ewn' (eofn), ar wilod (ar waelod); **geiriau** |

| | |
|---|---|
| | **tafodieithol:** ‘shimpil’ (gwael, o ‘simple’ yn Saesneg). Ceir nifer o eiriau sy’n gysylltiedig â **bwyd a diod** hefyd yn y pennill olaf ‘Pice mân a bara lawr a dishgled o de’. Ydy pawb yn gwybod beth yw ‘bara lawr’?<br>• Tynnu sylw at y dyfyniad canlynol o wefan Neil Rosser www.neilrosser.com<br>“Cafodd ei ysbrydoli i ganu am ***'Ochor Treforys o'r Dre'*** ar ôl clywed cyfweliad gan Ian Dury oedd yn datgan fod gwell ganddo ganu am Watford na chanu am California. Yn yr un modd penderfynodd Neil ganu am Glydach, Glais a Bonymaen yn hytrach na Llydaw, Iwerddon a Phatagonia.”<br>• Trafod: Ydy hi’n bwysig ein bod ni’n dechrau wrth ein traed ac ysgrifennu am ein hardal ein hunain?<br>• Nodi syniadau ar y bwrdd gwyn: nodweddion ein hardal ni. (Mae dechrau ail bennill Neil Rosser yn nodi nodweddion ochr Treforys o’r dre).<br>• Yn raddol, llunio pennill neu ddau a all fod yn sail i gân. Dewis arall fyddai meddwl am gytgan i ddechrau. |
| Gweithgareddau estyn: | • Mewn gwers gerddoriaeth, creu alaw fachog – i’r gytgan i ddechrau, yna i’r penillion. |

OCHOR TREFORYS O'R DRE

Dyw e ddim yn rhy bert, dyw e ddim yn rhy hardd,
Mae 'di bod yn ysbrydoliaeth i ambell i fardd,
I Gwenallt chi'n gweld, o'dd e'n fwy na lle –
Ochor Treforys o'r dre.

Gweddillion ffwrneisi, tai teras mewn rhesi,
Adeilade'n pwtru, a'r Tawe yn drewi.
Dyw hwn ddim yn dwll, mae'n fwy na lle –
Ochor Treforys o'r dre.

Caled yw hanes y fro,
Tlodi yn fyw mewn sawl co',
Caled o'dd bywyd y fro,
Hiwmor mor ddu â glo.

Clydach a Glais, Birchgrove, Bonymaen,
Plant yn whare ar yr hewl, pob mam ar bigau'r drain,
Cwestiwne  digon ewn ac atebion digon plaen –
Ochor Treforys o'r dre.

Tair milltir crwn ar wilod y cwm,
Ceir yn dod o bobman a'r aer yn llawn plwm.
Sgidie llwm, acenion trwm
Lawr yn ochor Treforys o'r dre.

Caled yw hanes y fro,
Tlodi yn fyw mewn sawl co',
Caled o'dd bywyd y fro,
Hiwmor mor ddu â glo.

Shimpil yw y Shipshwn sy'n byw 'ma yn y llacs,
Golwg wyllt Gwyddelig, wmladd gyda Jacs;
Eu ceir nhw sydd yn foethus ond dillad sydd yn rhacs,
Tincars Treforys a'r dre.
Rownd fan hyn, chi'n gweld, ma'n nhw'n siarad de,
Pice mân a bara lawr a dishgled o de.
I rai sy wedi gatel ma' fe'n seithfed ne
Lawr yn ochor Treforys o'r dre.

*Neil Rosser*